**Eitem ar yr Agenda: 3**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion o gyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 28ain Gorffennaf 2008 ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am10.00 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn Cynrychioli |
| --- | --- |
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| S Frobisher (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| | |
| W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Yn mynychu fel arsylwyr:**

| | |
| --- | --- |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); C Hanks (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Sicrwydd Gweithredol); R Simmons (Prif Swyddog Cynorthwyol, Sefydliad a Datblygu Pobl); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); D Mottram (Rheolwr Cefnogi Gweithredol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Halstead (Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); Keith Williams (Prif Archwilydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Sian Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn Cynrychioli |
| --- | --- |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu aelodau i gyfarfod cyntaf Panel Gweithredol yr Awdurdod newydd. Fe gynghorodd aelodau mai'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol fyddai'n cymryd cofnodion y cyfarfod ar ôl ymddiswyddiad diweddar y Swyddog Cyswllt Aelodau.

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Nid oedd dim eitemau wedi cael eu cyflwyno i'r Cadeirydd nac i'r Clerc er ystyriaeth.

## 3) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod o'r Panel Gweithredol gynhaliwyd ar 6ed Mawrth 2008.

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a dilys o'r trafodion.***

## 4) Materion yn Codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

## 5) Strategaeth Archwilio Mewnol 2008 hyd 2012

Fe gyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ei adroddiad ac atodiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn hysbysu aelodau o'r strategaeth archwilio mewnol, lefel uwch ar gyfer 2008-2012. Fe ddisgrifiodd y strategaeth y byddai ef a'i dîm archwilio mewnol yn mabwysiadu i gwrdd ag anghenion y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer y ddarpariaeth o wasanaethau ariannol oedd gan yr Awdurdod gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Fe gadarnhaodd y byddai'r holl weithgaredd archwilio mewnol gwblhawyd o dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cydymffurfio gyda'r safonau a osodwyd gan CIPFA. Aeth ati i fanylu cynnwys ei adroddiad a thynnodd sylw'r aelodau i Atodiad A oedd yn rhestru'r ardaloedd archwilio amrywiol adnabuwyd. Eglurodd fod amlder archwilio pob ardal wedi ei bennu yn unol ag asesiad o anghenion yn seiliedig ar risg, fel y dynodwyd gan gyfraddau risg o A (risg uchel, angen adolygiad blynyddol) i D (risg isel, angen adolygiad pob pedair blynedd).

Gan ymateb i gwestiwn gan y Clerc, fe gadarnhaodd Mr Halstead ei fod ef a'i dîm wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r archwilwyr allanol drwy gyfarfodydd rheolaidd i sicrhau fod rhaglenni archwilio mewnol ac allanol yn cael eu cynllunio i osgoi dyblygiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, fe gadarnhaodd Mr Halstead, er pryderon cenedlaethol diweddar am danwydd, roedd yr ardal archwilio oedd yn gysylltiedig gyda rheoli'r fflyd a thanwydd (rhif.22 yn Atodiad A) wedi ei ddyrannu fel risg 'C' yn unig. Fe eglurodd fod archwiliad allanol yn canolbwyntio ar brosesau caffael mewnol, ac y byddai ymgymryd ag astudiaeth ehangach o'r amgylchedd caffael yn golygu corff mawr o waith na fyddai gan ei dîm ddigon o fedr i'w wneud.

Ychwanegodd, yn ei farn ef, roedd adroddiadau o arbedion mawr drwy brosesau caffael gwahanol wedi eu gorliwio'n fawr, ac mewn realiti, roedd y Gwasanaeth yn caffael tanwydd am bris cymharol isel.

Awgrymodd y Prif Swyddog Tân, efallai fod pryder yr aelodau yn gysylltiedig ag argaeledd tanwydd ac nid ei gaffaeliad, ac fe sicrhaodd y pwyllgor fod trafodaethau wedi digwydd rhyngddo ef a'i gymheiriaid yn y gwasanaethau tân ac achub eraill a'r heddlu am y posibilrwydd o ailgyflwyno bynceri storio tanwydd. Eglurodd, yn dilyn datgomisiynu bynceri tanwydd nifer o flynyddoedd yn ôl, roedd cerbydau'r gwasanaeth yn nol tanwydd o orsafoedd petrol, sy'n gwneud synnwyr economaidd. Fodd bynnag, yng ngoleuni digwyddiadau diweddar, roedd prif swyddogion ar draws Cymru wedi cytuno i edrych ar y posibilrwydd o ailgyflwyno rhyw fath o system storio tanwydd.

***<u>Penderfynwyd</u>: - derbyn y Strategaeth Archwilio Mewnol 2008-2012 fel y'i cyflwynir.***

**6) Crynodeb o Weithgaredd Archwilio Mewnol 2007/08 a Chynllun Asesiad Anghenion ac Archwiliad Drafft ar gyfer 208/09**

Fe gyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ei adroddiad a'i atodiadau (ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn crynhoi'r gweithgareddau archwilio mewnol gwblhawyd yn ystod 2007/08, ac fe gyflwynodd yr asesiad anghenion archwilio mewnol a chynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2008/09 am gymeradwyaeth. Sicrhaodd Mr Halstead yr aelodau, yn seiliedig ar y gwaith archwilio mewnol ymgymerwyd yn ystod 2007/08, y farn archwiliad mewnol oedd bod y systemau o reolaeth fewnol yn foddhaol. Gan gyfeirio at Atodiad A o'r adroddiad, nododd Mr Halstead, mewn perthynas â barnau ardaloedd archwilio unigol, byddai'n well ganddo weld barnau archwilio 'da' yn hytrach na rhai 'boddhaol', ond nad oedd yn poeni'n fawr am unrhyw rai o'r ardaloedd archwilio. Gwnaeth sylw fod gan archwilwyr ddiddordeb penodol mewn archwiliadau dilynol, ac fe gyfeiriodd aelodau at Atodiad B oedd yn rhestru'r gweithgareddau archwilio dilynol yn ystod 2007/08 mewn pedair ardal archwilio, pob un wedi derbyn barn archwilio 'da' neu 'foddhaol'.

Yna, tynnwyd sylw aelodau at y grynodeb o weithgaredd archwilio mewnol 2007/08 yn Atodiad C, ac i'r archwiliad o reolaeth rhwydwaith oedd wedi cael ei ohirio tan 2008/09 a'r archwiliad o gaffael detholiad, nad oedd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn yn anffodus. Eglurodd Mr Halstead fod hyblygrwydd yn y nifer o ddyddiau archwilio gynlluniwyd ar eu cyfer, a bod y rhain yn newid yn aml, yn ddibynnol ar yr hyn ddarganfyddir yn ystod yr archwiliad. Sicrhaodd aelodau y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau ac na ddylent fod yn bryderus.

Yn nhermau cyfanswm yr amser a ddyrannwyd i archwiliad mewnol, adroddodd Mr Halstead fod 3 diwrnod wedi cael eu rhoi i drefniadau wrth gefn, ac, er nad oedd hyn yn ymddangos yn llawer, roedd yn 6% o'r dyraniad cyfan, oedd yn nodweddiadol yn y fframwaith archwilio.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Clerc, rhoddodd Mr Halstead resymau pan fod rhai ardaloedd archwilio wedi derbyn categori risg uchel (categori 'A', archwilio'n

flynyddol) yn ymddangos yn y cynllun archwilio blynyddol. Eglurodd, mewn rhai achosion, fod hyn o ganlyniad i drafodaethau gyda'r archwilwyr allanol, a chan ddymuno osgoi dyblygu, ond mewn eraill, roedd yn gwestiwn o'r adnoddau oedd ar gael. Aeth ati i ddweud fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn talu am 50 diwrnod o weithgaredd archwilio mewnol ar hyn o bryd, ond os fyddai'n penderfynu cynyddu'r nifer hynny'n arwyddocaol, yna ni fyddai ef a'i dîm yn gallu darparu'r nifer hynny.

***<u>Penderfynwyd:</u>- nodi Crynodeb o Weithgaredd Archwilio Mewnol 2007/08 a chymeradwyo'r Asesiad Anghenion a Chynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2008/099 fel y'i cyflwynir.***

**7) Datganiad o Sicrwydd Archwiliad Mewnol Blynyddol 2007/08**

Fe gyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ei adroddiad a'i atodiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) gyda'r nod o gwrdd ag anghenion y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio i adolygu effeithiolrwydd system reolaeth fewnol yr Awdurdod y mae archwiliad mewnol yn ffurfio rhan arwyddocaol ohono. Eglurodd fod KPMG/Swyddog Archwilio Cymru yn adolygu'r Archwiliad Mewnol hefyd er mwyn darparu sicrwydd o'u ffitrwydd i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol.

Cyfeiriodd Mr Halsted aelodau at baragraff 13 o'i adroddiad, lle'r oedd yn nodi ei fod yn fodlon fod gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru reolaeth fewnol foddhaol a phrosesau llywodraethu corfforaethol i reoli cyflawniad o nodau'r Awdurdod.

Hefyd, nododd Mr Halstead fod archwiliadau yn canolbwyntio'n gynyddol ar ardaloedd tu hwnt i agweddau ariannol yn unig, yn enwedig mewn sefydliadau'r sector cyhoeddus. Mewn effaith, felly, bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynyddu'r angen i wneud penderfyniadau am ei lefel o oddefiant risg, a phenderfynu pa ardaloedd mae'n ystyried i fod yn flaenoriaeth i gael archwiliad mewnol. Rhybuddiodd, er ei fod yn hyderus y gallai seilio ei ganlyniadau am yr Awdurdod cyfan ar yr ardaloedd hynny o wasanaeth oedd wedi cael eu harchwilio, ni allai ddweud yn hyderus, y byddai'n gallu parhau i ddod i ganlyniadau am yr Awdurdod cyfan yn seiliedig ar archwiliadau detholus o rai ardaloedd.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod os oedd Mr Halstead yn cynghori'r Awdurdod i gynyddu'r nifer o ddyddiau archwilio mewnol, dywedodd, er bod yr angen archwilio yn cynyddu, nid yw'r nifer o ddyddiau sydd ar gael yn gwneud hynny. Felly, roedd rhaid i'r Panel Gweithredol wneud penderfyniadau gwybodus am ymborth risg a rheoli risg yr Awdurdod. Eglurodd fod archwiliadau mewnol yn cael eu symleiddio drwy weithio gydag archwilwyr allanol, ac mewn rhai achosion, drwy ymgymryd ag archwiliadau ysgafn ar ardaloedd oedd wedi eu cysylltu'n agos gydag ardaloedd eraill, megis adolygu cychwynwyr ac ymadawyr y gyflogres, lle'r oedd gwaith archwilio yng Nghonwy wedi cyfrannu at y darganfyddiadau. Aeth ymlaen i grynhoi mai ei fwriad oedd codi ymwybyddiaeth aelodau yn hytrach nag awgrymu ei fod yn achos pryder.

Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud â'r ffioedd delir i KPMG, sicrhaodd Mr Halstead yr aelodau na fyddant yn talu unrhyw ffioedd uwch nag a delir i Swyddog Archwilio Cymru, gan fod ffioedd ar gyfer gwaith y sector cyhoeddus yn cael eu trafod gan yr Archwilydd Cyffredinol. Ychwanegodd y Clerc, yn ystod trafodaethau gyda chyrff archwilio allanol, fod pwysau arnynt i gyflawni eu heffeithiolrwydd eu hunain, gan efelychu'r ymgais am effeithiolrwydd ar draws y sector cyhoeddus.

***<u>Penderfynwyd</u>: - derbyn yr argymhelliad fod Datganid o Sicrwydd Archwiliad Mewnol Blynyddol yn cael ei dderbyn a'i ddefnyddio i gyfrannu at gynnwys tystiolaeth Datganiad o Reolaeth Fewnol 2007/08.***

## 8) Adolygiad Cyfansoddol

Fe gyflwynodd y Clerc ei adroddiad (ddosbarthwyd yn y cyfarfod), lle'r oedd yn cynnig fod cylch gorchwyl i adolygu cyfansoddiad yr Awdurdod yn cael ei ffurfio ar gyfer adrodd yn ôl i'r Awdurdod. Tynnodd sylw'r aelodau at wall argraffyddol pwysig yn llinell gyntaf paragraff 7 o'r adroddiad, ddylai ddarllen, 'O'r trafodaethau hynny <u>ni</u> ddylai'r Cylch Gorchwyl gynnwys:'. Atgoffodd aelodau o gefndir ei adroddiad, oedd yn deillio o benderfyniad yr Awdurdod, gymerwyd ar 16eg Mehefin 2008, i adolygu'r materion cyfansoddol drafodwyd yn flaenorol gan yr Awdurdod, ac i gyfeirio at yr argymhellion oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cyfeiriodd Mr Everett at baragraff 6 o'i adroddiad hefyd a'r cyngor roddodd yng nghyfarfod mis Mehefin, oherwydd maint yr Awdurdod, i gychwyn o leiaf, efallai byddai Pwyllgor Archwilio yn gallu cyflawni swyddogaeth gorolwg ac archwilio yn ychwanegol i'r archwiliad.

Nododd y Clerc nad oedd yn awyddus i gynyddu'r nifer o gyfarfodydd oedd yn cael eu cynnal. Gan symud i baragraff 20 o'i adroddiad, fe nododd y Clerc, o'r ddau opsiwn ar gyfer adolygu'r broses, efallai byddai'r cyntaf yn anodd ei gwblhau o fewn yr argymhelliad o amserlen tri mis gan y byddai galw cyfarfod o'r grŵp adolygu yn anodd dros fisoedd yr haf. Felly, argymhellodd yr ail opsiwn, lle byddai ef a'r Prif Swyddog Tân yn gwneud gwaith ymchwil ac yn gwerthuso'r opsiynau ar gyfer newid cyfansoddol ac i wahodd yr holl aelodau i roi sylwadau ar yr opsiynau hynny, ac i adrodd yn ôl i'r Awdurdod llawn gydag opsiynau wedi eu gwerthuso'n llawn.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, fe gadarnhaodd y Clerc, o dan yr ail opsiwn, gellir cwblhau'r gwaith erbyn cyfarfod llawn nesaf o'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Hydref.

Wrth ymateb i gwestiwn ar gynnwys aelod etholedig i weithio ar adolygiad gyda'r Prif Swyddog Tân ac efe, fe awgrymodd y Clerc byddai ymgynghori gyda'r Cadeirydd yn ddigon, gan y bydden nhw'n edrych am farnau'r holl aelodau drwy arolwg ac argymhellion, fyddai'n cael eu cyflwyno er ystyriaeth yng nghyfarfod mis Hydref. Derbyniwyd yr argymhelliad, ac yr ymgynghorir gyda'r Is-Gadeirydd yn ogystal â'r Cadeirydd.

Gan gydnabod arsylwad gan aelod fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu mewn ardal sy'n cynnwys cymunedau sydd ar chwâl ac yn annhebyg iawn i awdurdodau tân ac achub eraill, fy gytunodd y Clerc na fyddai trefniadau archwilio cymhleth yn addas, ac y byddai rhaid i drefniadau cyfansoddol ar gyfer yr Awdurdod fod yn rhai addas.

***Penderfynwyd: gofyn i'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân (mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd) ymchwilio a gwerthuso'r opsiynau ar gyfer newid cyfansoddol, i wahodd pob aelod, drwy arolwg, i wneud sylwadau ar yr opsiynau hynny, ac i adrodd yn ôl i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn ar opsiynau wedi eu gwerthuso yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2008.***

## 9) Deddf Dynladdiad Corfforaethol

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Tân (Sicrwydd Gweithredol) ei adroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) lle'r oedd yn amlinellu'r Ddeddf Dynladdiad a Lladdiad Corfforaethol 2007 ddaeth i rym ar 6ed Ebrill 2008. Rhoddodd grynhoad o gefndir dynladdiad corfforaethol yn dod yn dderbyniadwy yn y Llys, ac fe eglurodd fod y ddeddfwriaeth newydd yma'n adeiladu ar ddeddfwriaeth bresennol i wneud corfforaethau - gan gynnwys awdurdodau lleol ac amrediad o gyrff y Goron - yn atebol am y ffordd mae gweithgareddau'r sefydliad yn cael eu rhedeg gan ei uwch reolwyr.

Aeth Mr Claydon ymlaen i egluro'r cysyniadau o dorri'r ddyletswydd o ofal yn 'ddybryd', ac o 'uwch reolwyr' o dan y ddeddf hon. Fe bwysleisiodd sut mae'n rhaid i sefydliadau perthnasol ddangos dyletswydd o ofal i'r dioddefwr o dan ddeddf esgeulustod, e.e. fel gweithiwr, fel preswylydd eiddo neu fel cyflenwr nwyddau neu wasanaethau. Fe bwysleisiodd o dan y ddeddf newydd yma, nad yw unrhyw ddyletswydd o ofal gan awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â phenderfyniad am fater o bolisi cyhoeddus (gan gynnwys y dyraniad o adnoddau cyhoeddus neu ddiddordeb y cyhoedd sy'n cystadlu) yn cael ei ystyried i fod yn 'ddyletswydd o ofal perthnasol', ddylai ddarparu sicrwydd i aelodau wrth wynebu penderfyniadau anodd am sut y dylid dyrannu adnoddau.

Fe adroddid y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Sicrwydd Gweithredol) fod Rhwydwaith Cyfreithwyr y Gwasanaeth Tân wedi mynegi barn nad oeddynt yn credu dylai cyflwyniad y ddeddf newydd achosir pryder i'r gwasanaethau tân ac achub gan fod eu polisïau a'u gweithdrefnau a'r flaenoriaeth uchel at iechyd a diogelwch yn golygu nad oeddynt yn debygol o fod yn euog o dorri eu dyletswydd o ofal yn ddybryd.

Fe bwysleisiodd y ffaith nad yw'r Ddeddf Dynladdiad Corfforaethol yn diwygio adran 37 o Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati., 1974, a bod rheolwyr unigol yn gallu bod yn atebol am doriadau yn y ddeddf hon.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad.***

## 10) Diweddariad ar Reoli Parhad Busnes

Rhoddodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol gyflwyniad oedd yn amlinellu'r cynnydd wnaed ers i'r Awdurdod fabwysiadu Polisi Rheoli Parhad Busnes ym mis Hydref 2007. Atgoffodd aelodau o'r gofynion o dan y Ddeddf Parhad Sifil 2004 fod gan ymatebwyr categori un brosesau Rheoli Parhad Busnes yn eu lle, ac aeth ati ddisgrifio'r gwaith sydd wedi cael ei gwblhau yn nhermau casglu cofrestr blaenoriaethu risg, gan gyfeirio at a gostwng risgiau sydd wedi eu hadnabod, a sefydlu gweithdrefnau monitro lle mae penaethiaid adrannau yn adrodd yn erbyn y cynlluniau gweithredu a gytunir arnynt bob chwarter. Ailadroddodd y pwysigrwydd o fewnosod parhad busnes o fewn y sefydliad, fel nodwyd yn y Safon Brydeinig i Reoli Parhad Busnes- BS25999. Fe adroddodd hefyd byddai ymarfer a phrofi'r cynlluniau yn cychwyn ym mis Medi 2008, fel ymarferion pen bwrdd i gychwyn, ac yn adeiladu at ymarferion mwy sylweddol, dirybudd, yn ymwneud â chau adran neu swyddogaeth, yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Bydd aelodau yn derbyn diweddariadau pellach ar gynnydd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 11) Cyflwyniad ar Ffigyrau Ffurflenni Blynyddol 2007/08

Rhoddodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol gyflwyniad ar y ffurflenni blynyddol dros dro oedd wedi cael eu cyflwyno i Uned Data Llywodraeth Leol ar gyfer blwyddyn ariannol 2008/08. Eglurodd fod rhai o'r rhain yn mynd i gael eu harchwilio yn hwyrach yn yr un wythnos, ac felly, ei bod hi'n bosib gwneud rhai fan newidiadau. Eglurodd hefyd fod y wybodaeth yn cael ei gyflwyno yng Nghynllun Gwella'r Awdurdod erbyn 31ain Hydref.

Aeth ymlaen i gyflwyno gwybodaeth am berfformiad, gweithgareddau ac adnoddau cymharol ar gyfer 2007/08, gan wneud cymariaethau gyda'r flwyddyn ariannol flaenorol, pan fo cymariaethau ar gael. Roedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn gysylltiedig â thalu anfonebau ar amser, gweithgareddau diogelwch tân cymunedol, gweithdrefnau diogelwch tân deddfwriaethol, lefelau staffio, staff nad ydynt ar gael oherwydd absenoldeb salwch a sesiynau hyfforddi, cyfraddau anafiadau staff, staff sy'n cychwyn ac yn gadael, ymddeoliadau oherwydd afiechyd a gweithgaredd gweithredol.

Yna, fe welodd aelodau berfformiad yr Awdurdod yn erbyn set newydd o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a Dangosyddion Craidd.

Gan ymateb i gwestiwn am danau mewn pebyll, fe gadarnhaodd yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân fod y rhain yn cael eu dosbarthu fel prif danau, a bod negeseuon diogelwch cyhoeddus wedi cael eu cyhoeddi ar y pwnc yn ddiweddar.

Fe nododd y Prif Swyddog Tân, yn nhermau marwolaethau tân, fod y niferoedd yng Ngogledd Cymru wedi bod yn uchel, ac y gellir ystyried unrhyw gyfradd sy'n fwy nag 1 marwolaeth tân pob 100,000 o'r boblogaeth yn rhy uchel. Ychwanegodd dylai gostwng y nifer o ddigwyddiadau yn llai nag 1 fod yn darged i Ogledd Cymru. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, fe gadarnhaodd nad pobl yn dod i mewn i'r ardal oedd wedi achosi'r digwyddiadau uchel o farwolaethau tân oherwydd bod

pawb oedd wedi marw mewn tanau mewn cartrefi yn ddiweddar, yn byw yn yr ardal.

Ychwanegodd Uwch Reolwr Diogelwch Tân fod y digwyddiadau o farwolaethau oherwydd tanau damweiniol wedi bod yn is yn 2007/08 na'r 1.48 pob 100,000 o'r boblogaeth yn y flwyddyn flaenorol. Ychwanegodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân hefyd, yn wahanol i Loegr, nid oedd marwolaethau tân mewn cartrefi amlbreswyliaeth yn broblem benodol yng Nghymru.

Fe awgrymodd y Prif Swyddog Tân efallai byddai gan aelodau newydd ddiddordeb mewn cyflwyniad ar ddarganfyddiadau adolygiad o farwolaethau tân yng Ngogledd Cymru gan Grŵp Gorchwyl mewnol. Fe eglurodd, er bod yr adolygiad yn gysylltiedig â marwolaethau tân hyd ddiwedd blwyddyn 2006/07, roedd y darganfyddiadau yn parhau yn ddilys. Hysbyswyd aelodau fod eitem ar ddiogelwch tân ar agenda'r cyfarfod nesaf eisoes:

***<u>Penderfynwyd: - cynnwys cyflwyniad ar ddarganfyddiadau Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân ar yr agenda ar gyfer y Panel Gweithredol.</u>***

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol am ei chyflwyniad a:

**<u>Penderfynwyd: - fod copïau o'r ffigyrau yn y cyflwyniad yn cael ei ddosbarthu i aelodau.</u>**

**12) Rhaglen Gyfalaf 2008/09**

Yng ngoleuni pryderon ymysg rhai aelodau am adroddiadau diweddar yn y wasg am leoliad Gorsaf Dân Glannau Dyfrdwy yn Queensferry, rhoddodd y Prif Swyddog Tân ragair i gyflwyniad ei adroddiad gyda rhai sylwadau cyffredinol. Hysbysodd aelodau fod ymholiadau yn cael eu derbyn yn rheolaidd gan ddatblygwyr oedd yn dymuno prynu gorsafoedd tân a'r tir o'u hamgylch. Nododd hefyd fod safle pob gorsaf dân ar werth yn botensial, cyn belled â bod y prynwr yn gallu cwrdd â chostau prynu'r safle a chost sefydlu gorsaf dân newydd mewn lleoliad gwahanol oedd yn dderbyniol. Ychwanegodd, er nad oedd yn anghyffredin i ddatblygwyr wneud ymholiadau, ymhob bob achos bron, nid yw'r pryniant potensial yn mynd ymhellach na'r ymholiad cychwynnol gan nad yw'r amodau sydd wedi eu hatodi yn ddigon atyniadol.

Roedd rhai aelodau yn pryderu am yr adroddiadau yn y wasg leol fod gorsaf dân Glannau Dyfrdwy wedi ei chlustnodi i gau, ac yn cwestiynu os dylid rhoi'r fath fanylion ym mharth y cyhoedd. Roedd aelodau o Gyngor Sir y Fflint yn pryderu, ac awgrymwyd y dylai'r Awdurdod ymateb i'r erthygl yn y Flintshire Chronicle yn gwadu fod unrhyw gynnig yn cael ei ystyried. Fe eglurodd y Prif Swyddog Tân fod rhaid i bapurau sy'n cael eu paratoi ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod gael eu rhoi ym mharth y cyhoedd yn ôl y gyfraith oni bai ystyrir yr eitem o dan Ran II o'r agenda, a bod copïau yn cael eu hanfon yn rheolaidd i'r wasg yr un adeg ag oeddynt yn cael eu rhannu â'r aelodau. Roedd rhai aelodau yn pryderu fod y wasg yn cysylltu gyda nhw am sylwadau heb iddynt dderbyn briff. Fe'u cynghorwyd yn y fath achos, y dylai aelodau gysylltu â'r swyddogion am wybodaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn yn gofyn pam nad oedd y papur yma wedi ei roi o dan Ran II o'r agenda, fe eglurodd y Clerc, yn dilyn trafodaethau rhyngddo ef a'r Trysorydd, ni ystyriwyd fod y wybodaeth yn syrthio yn y categori hwn o wybodaeth wedi ei eithrio, nac yn cyfaddawdu safle'r Awdurdod mewn perthynas ag unrhyw broses caffael potensial. Hefyd, dywedodd fod y cynnwys yn ddiddordeb i'r cyhoedd ac os fyddai unrhyw un wedi gwneud cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, byddai'r wybodaeth wedi ei rhyddhau beth bynnag. Ychwanegodd ymhellach fod y ffigyrau mewn rhaglenni cyfalaf wedi eu cyffredinoli ac nid oedd yn golygu gwybodaeth fyddai'n rhoi mantais i unrhyw barti yn y broses dendro.

Gan gefnogi hyn, fe eglurodd y Prif Swyddog Tân fod y lefel o fanylder a ddarparwyd yn y papurau am y rhaglen gyfalaf wedi esblygu dros amser i gwrdd ag angen aelodau am fanylion digonol, heb fod yn ormodol. Yn yr enghraifft hon, ychwanegodd, roedd yn gywir dweud fod y papur penodol hwn wedi cael ei gasglu yn y gred ei fod yn mynd i gael ei ystyried o dan Ran II, ac os byddent wedi gwybod nad hyn oedd yr achos, byddai arddull gwahanol wedi cael ei fabwysiadu. Fodd bynnag, cytunodd gyda'r Clerc y gallai'r wybodaeth ynddo fod wedi gallu cael ei ryddhau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Yna, cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) lle'r oedd yn darparu aelodau gyda diweddariad ar raglen gyfalaf yr Adran Rheoli Cyfleusterau. Manylodd y broses o ddiweddaru 13 gorsaf dân yn 2008 a 2009 er mwyn iddynt gyrraedd safonau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, a thynnu sylw'r aelodau at brosiectau penodol yn y Rhyl, Llangefni, Biwmares, Bwcle, Nefyn, Y Waun, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.

Adroddodd Mr Hanks, fod gorsaf dân gymunedol arloesol bron â'i chwblhau yn y Rhyl, a bod diwrnod agored yn cael ei drefnu ar gyfer Medi 20fed 2008, gyda'r Prif Weinidog, Rhodri Morgan AC, yn agor yr orsaf yn swyddogol ar Hydref 3ydd 2008.

Cynghorodd aelodau oherwydd diffyg tir addas am y pris cywir, fod y cynnig gwreiddiol o gyd-leoli gorsaf yr heddlu gyda'r orsaf dân yn Llangefni, wedi ei adael gan ffafrio gorsaf dân ar wahân, gyda swydd yr heddlu ar gael mewn datblygiad wedi ei foderneiddio a'i ymestyn yn yr orsaf dân a swyddfa ddiogelwch y sir bresennol.

Hysbyswyd aelodau byddai'r orsaf dân ym Miwmares oedd wedi ei moderneiddio yn cael ei agor yn swyddogol gan Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog ym mis Medi. Estynnodd Mr Hanks longyfarchiadau i Mr Stephen Roberts, Pennaeth Rheoli Cyfleusterau, a'i dim ar eu gwaith i foderneiddio gorsaf dân Biwmares wrth gadw cymeriad unigryw'r adeilad.

Tynnodd Mr Hanks sylw'r aelodau i'r sefyllfa yn Nefyn, a'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddarganfod os mai addasu'r orsaf bresennol neu symud i safle newydd fyddai'r datrysiad fwyaf cost effeithiol. Byddai rhagor o fanylion yn cael eu cyflwyno i aelodau er ystyriaeth yn y man.

Adroddodd Mr Hanks nad oedd dim ymateb gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar y prosiect i gyd-leoli gorsaf yr ambiwlans a'r orsaf dân yn Wrecsam. Tynnodd sylw aelodau i'r posibilrwydd o orfod gwneud cynlluniau amgen ar gyfer gorsaf dân ar ei phen ei hun os nad oedd cadarnhad o'r fenter ar y cyd ar ddod.

Estynnodd y Cynghorydd Jeffares ei longyfarchiadau i'r Gwasanaeth ar y rhaglen cyfalaf, oedd, er yr oediad anffodus wrth dderbyn cadarnhad y Gwasanaeth Ambiwlans, yn dangos swm nodedig o waith oedd yn cael ei wneud.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad.***

**13) Estyniadau i Dal Salwch**

Hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau ar gefndir yr adroddiad hwn (ddosbarthwyd o flaen llaw) sydd wedi cael ei gyflwyno'n rheolaidd i'r Awdurdod am nifer o flynyddoedd. Eglurodd fod yr adroddiad yn rhoi manylion ar y penderfyniadau a gymerwyd gan y Prif Swyddog Tân mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd mewn perthynas ag aelodau gweithredol o staff lle mae eu hamodau o wasanaeth yn caniatáu'r fath estyniadau i dâl.

Eglurodd pan sefydlwyd y weithdrefn i gychwyn, roedd wedi bod yn defnyddio i ddod ag adroddiad monitro rheolaidd ar y weithdrefn i'r Awdurdod. Fodd bynnag, gan fod y weithdrefn wedi bod yn ei le am nifer o flynyddoedd nawr, awgrymodd y Prif Swyddog Tân nad oedd angen parhau i ddod â'r adroddiad rheolaidd o flaen yr aelodau. Cytunodd yr aelodau gydag awgrymiadau'r Prif Swyddog Tân:

***<u>Penderfynwyd: - nodi cynnwys yr adroddiad, ac i beidio â pharhau gyda'r angen i adrodd yn rheolaidd i'r Awdurdod ar estyniadau i daliadau salwch i staff gweithredol.</u>***

**Materion Brys**

Dim.

**<u>RHAN II</u>**

Dim busnes.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Merfyn Thomas y Gwasanaeth am gymryd rhan mewn gem griced elusennol yn ddiweddar yr oedd wedi mynychu. Hysbyswyd aelodau fod £1,200 wedi cael ei godi, a bod Banc Barclays yn dyblu'r swm, oedd yn rhoi cyfanswm o £2,400 oedd i'w roi i elusen Tŷ Gobaith.

Hysbyswyd aelodau gan fod yr orsaf dân newydd yn y Rhyl ar fin agos yn fuan, gobeithir gellir cynnal cyfarfod nesaf y Panel Gweithredol yno.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 y prynhawn.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd T. Roberts** **Dyddiedig 220908**